# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 07/08/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 13/08/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd.** | 20/08/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC** – **Gosod tir yn Harbwr Porthmadog**

**PENDERFYNIAD –**

Cymeradwyo gosod tir yn Harbwr Porthmadog yn uniongyrchol i Glwb Rhwyfo Porthmadog ar delerau ac amodau a bennir gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelodau Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfewr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 07/08/2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :**

Gosod tir yn Harbwr Porthmadog.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Cymeradwyo gosod tir yn Harbwr Porthmadog yn uniongyrchol i Glwb Rhwyfo Porthmadog ar delerau ac amodau a bennir gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Er mwyn tryloywder ac atebolrwydd, bydd pob gosodiad uniongyrchol o eiddo nad yw'n cael ei gynnig ar y farchnad agored yn amodol ar gymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr Aelod Cabinet perthnasol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r darpar denant wedi mynegi diddordeb mewn prydlesu darn o dir sy'n mesur tua 43 metr sgwâr yn Harbwr Porthmadog, fel y dangosir wedi'i ymylu'n goch ar y cynllun ynghlwm at ddibenion adnabod yn unig. Y defnydd arfaethedig o'r tir yw storio cychod ac offer ategol.

Mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Gwynedd gael yr ystyriaeth orau y gellir ei chael yn rhesymol wrth waredu tir, gan gynnwys trwy brydles. Yn unol â'r ddyletswydd statudol hon, mae Polisi Rheoli Asedau'r Cyngor yn gyffredinol yn ffafrio gwaredu ar y farchnad agored er mwyn

sicrhau tryloywder, cystadleuaeth deg, a chydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r Polisi hefyd yn cydnabod, yn amodol ar gymeradwyaethau priodol, y gellir cyfiawnhau gosod yn uniongyrchol lle gellir dangos buddion cymunedol clir.

Yn yr achos hwn, byddai'r brydles arfaethedig yn galluogi'r Clwb i sefydlu compownd storio yn agos at y dŵr, a thrwy hynny gefnogi ei ofynion gweithredol a chynorthwyo i hyrwyddo chwaraeon a lles o fewn y gymuned leol. Ar y sail hon, ystyrir bod gosod uniongyrchol yn gyfiawn yn yr achos hwn.


Cadarnheir nad oes unrhyw fwriad i gytuno ar ffigur rhent sy'n is na gwerth rhent marchnad asesedig y tir.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – “Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.”

Swyddog Monitro – “Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.”

Aelod Lleol (Cynghorydd Gwilym Jones) – Dim gwrthwynebiad.




**Teitl / Title:**

Land at Porthmadog Harbour

**Allwedd / Key:**

Property

Right of way

**Dyddiad / Date:**

28/01/2026

**Graddfa / Scale @ A4:**

1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd